## Pris Adennill Dyled a Gwybodaeth Cyflwyniad

Mae’r costau hyn yn berthnasol pan fo’ch hawliad mewn perthynas â dyled heb ei thalu sydd heb ei ddadlau, ac felly nid oes angen camau gorfodi.

| **Gwerth y Ddyled** | **Ffi’r Llys** | **Ein Ffi Ni** |
|---|---|---|
| Hyd at £5,000 | £25 - £205 | £400 - £750 plws TAW |
| £5,001 - £10,000 | £455 | £750 - £1,500 plws TAW |
| £10,000 - £50,000 | 5% o werth yr hawliad | £2,500 - £4,000 plws TAW |
| £50,000 - £100,000 | 5% o werth yr hawliad | £5,000 - £7,500 plws TAW |
| £100,000+ | 5% o werth yr hawliad | £9,000 - £12,000 plws TAW |

Noder bod ein ffioedd yn amcangyfrif yn unig, nid ffi sefydlog. O bosib bydd yna hefyd taliadau ychwanegol yn codi ar amgylchiadau penodol eich achos.

Pe bai’r hawliad yn cael ei ddadlau, byddwn yn trafod y gwaith ychwanegol bydd angen ei gwblhau, ac yn darparu amcangyfrif costau pellach ar sail cyfradd yr awr.

Cyfraddau yr awr ein henillwyr ffi sy’n ymgymryd â gwaith adennill dyled yw:

| **Gradd** | **Disgrifiad** | **Graddfa yr Awr** |
|---|---|---|
| A | Partneriaid/Cyfarwyddwyr/Penaethiaid | £225 plws TAW |
| A | Cyfreithwyr a Gweithredwyr Cyfreithiol gyda thros 8 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso | Rhwng £201 a £225 plws TAW |

| | | |
|---|---|---|
| B | Cyfreithwyr a Gweithredwyr Cyfreithiol gyda thros 4 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso | Rhwng £175 a £201 plws TAW |
| C | Cyfreithwyr gyda llai na 4 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso, Gweithredwyr Cyfreithiol ac enillwyr ffi gyda'r un profiad | Rhwng £135 a £175 plws TAW |
| D | Cyfreithwyr dan Hyfforddiant, Para-gyfreithwyr ac enillwyr ffi gyda'r un profiad | Rhwng £80 a £110 plws TAW |

Mae ein ffioedd yn cynnwys y gwasanaethau canlynol (gan gynnwys achosion Llys Sirol angenrheidiol);

- Cymryd eich cyfarwyddiadau ac adolygu dogfennau;
- Ymgymryd â'r chwiliadau priodol (gan gynnwys chwiliad gyda'r Gofrestrfa Tir neu chwiliad ased);
- Anfon llythr cyn gweithredu;
- Cynnal trafodaethau;
- Derbyn taliad a'u hanfon i chi, neu os nad yw'r ddyled wedi'i dalu, drafftio a chychwyn hawliad;
- Pan na dderbynnir Cydnabyddiaeth Cyflwyniad nag Amddiffyniad, gwneud cais i'r llys am Ddyfarniad trwy ddiffyg;
- Ar ôl derbyn y Dyfarniad trwy ddiffyg, ysgrifennu at y Dyledwr i wneud cais am daliad;
- Rhoi cyfarwyddyd i Fargyfreithiwr i'ch cynghori/cynrychioli mewn gwrandawiadau llys. Os bydd hyn yn angenrheidiol, bydd y Bargyfreithiwr yn darparu amcangyfrif wedi seilio ar y gwaith sydd angen ei gwblhau. Bydd TAW gan amlaf yn cael ei ychwanegu at ffi'r Bargyfreithiwr.

Noder os yw'r ddyled yn cael ei amddiffyn mewn achos hawliadau bach, (gwerth llai na £10,000), bydd gan amlaf yn cymryd rhwng 3 a 6 mis o ffeilio'r Amddiffyniad tan y gwrandawiad terfynol. Am hawliadau wedi'u diranu i'r Trac Cyflym neu Mylti, (h.y. achosion mwy cymhleth neu'r rhai hynny gyda gwerth mwy na £10,000), byddwn yn eich darparu gydag amcangyfrif costau clir a'r amserlen debygol fesul achos.

Dylech werthfawrogi bod costau ac amserlen achosion yn amrywio yn sylweddol yn ôl cymhlethdod yr achos, problemau, nifer y dogfennau/dystiolaeth a safiad yr ochr arall.

**Gorfodaeth**

- Rhoi cyngor ar yr opsiynau gorfodaeth sydd ar gael i chi ac amcangyfrif o'r costau perthnasol os nad yw taliad dyled y Dyfarniad wedi'i dderbyn o fewn amser penodol.
- Yn fras, mae opsiynau gorfodaeth yn cynnwys:

  - gwrit rheolaeth (Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (HCEO)) (ffi llys o £66);
  - gorchymyn arwystlo (ffi llys o £110);
  - gorchymyn i fynychu'r llys am gwestiynu (ffi llys o £55 i bob dyledwr a ffi gweinydd proses o £110 + TAW);
  - gorchymyn dyled trydydd parti (ffi llys o £110);
  - gorchymyn statudol (ffi gweinydd proses);
  - gorchymyn methdalu (ffi llys o £280 a ffi gweinydd proses);
  - gorchymyn dirwyn i ben (ffi llys o £280 a ffi gweinydd proses).

- O bosib bydd angen chwiliadau methdaliad sy'n £2 i bob enw a chwiliadau'r Gofrestrfa Tir am tua £10 yn ystod Gorfodaeth.